Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS
Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyflawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

SeneddLJC@senedd.cymru

29 Rhagfyr 2021

Annwyl Huw,

Rwy'n ysgrifennu gan gyfeirio at y protocol ar gyfer craffu ar reoliadau sy'n codi oherwydd ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd. Roedd y protocol yn chwarae rôl hanfodol o ran sicrhau bod Llywodraeth Cymru a'r Senedd yn cydweithio'n effeithiol o dan amgylchiadau anarferol Brexit, a'r llwyth gwaith deddfwriaethol a grëwyd ganddo, er mwyn sicrhau bod y gyfraith yn parhau i allu gweithredu, a bod y setliad datganoli yn cael ei barchu.

Rwy'n deall bod ein swyddogion wedi cyd-ystyried dyfodol y protocol. Dibenion pennaf y protocol hwn oedd sicrhau bod hysbysiad cynnar yn cael ei roi, a bod llif esmwyth o reoliadau drwy'r broses graffu, cyn belled ag yr oedd yn ymarferol bosibl; gan ymrwymo Llywodraeth Cymru i gadw at egwyddorion Rheol Sefydlog 30C mewn perthynas â set ehangach o reoliadau a oedd yn ymwneud ag Ymadael â'r UE. Nid oes angen y cyntaf o'r rhain bellach gan fod nifer y rheoliadau sy'n ymwneud ag Ymadael â'r UE yn debygol o fod yn fach iawn; ac, yn fy marn i, mae'r ail wedi cael ei ddisodli gan yr ymrwymiad llawer ehangach yr wyf wedi ei wneud yng nghyd-destun ein gwaith ar y cyd, i ddiweddaru'r cytundeb cysylltiadau rhyng-sefydliadol.

Gallaf gadarnhau y bydd Llywodraeth Cymru yn ysgrifennu i'ch pwyllgor a phwyllgorau perthnasol eraill i'w hysbysu am unrhyw fwriad i gydsynio i Lywodraeth y DU arfer pŵer deddfwriaethol wedi ei ddirprwyo mewn maes datganoledig mewn perthynas â Chymru, gan egluro'r rhesymau dros y bwriad i gydsynio. Pan fydd amser yn caniatáu, byddwn yn rhoi cyfle i'r Senedd fynegi barn cyn rhoi cydsyniad ffurfiol. Hefyd, bydd Llywodraeth Cymru yn gosod Datganiad Ysgrifenedig mewn perthynas â phob tro y mae un o Weinidogion y DU yn arfer pŵer deddfwriaethol sydd wedi ei ddirprwyo mewn maes datganoledig y mae Gweinidogion Cymru wedi cydsynio iddo, gan egluro'r rhesymau dros roi'r cydsyniad hwnnw, fel arfer o fewn tri diwrnod gwaith i osod Datganiad gerbron, neu hysbysu Senedd y DU.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakefordy@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae hyn yn ymwneud â holl swyddogaethau deddfwriaethol Llywodraeth y DU a arferir mewn perthynas â Chymru yn y meysydd datganoledig y mae Gweinidogion Cymru yn cydsynio iddynt, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud ag Ymadael â'r UE y mae Rheol Sefydlog 30C yn berthnasol iddynt ac y byddai'r protocol wedi bod yn berthnasol iddynt. Yn ogystal â hynny, gan fod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i roi hysbysiad ymlaen llaw, sef rhywbeth nad yw'n ofynnol gan Reol Sefydlog 30C na'r protocol, rwyf felly o'r farn na fyddai cadw'r protocol o unrhyw werth ymarferol, ac y gallai achosi dryswch ynghylch y prosesau y cytunwyd arnynt.

Os ydych yn cytuno, rwy'n awgrymu ein bod yn caniatáu i'r protocol ddod i ben, gan ganolbwyntio yn ei le ar y trefniadau newydd a ddisgrifir uchod. Rwy'n gwybod nad ydym wedi llwyddo hyd yn hyn i hysbysu ymlaen llaw ym mhob achos gan fod y trefniadau'n parhau i ymsefydlu ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru. Rwyf wedi pwysleisio wrth fy swyddogion pa mor bwysig yw sicrhau ein bod yn cydymffurfio'n llawn cyn gynted â phosibl.

Yn gywir,



MARK DRAKEFORD